Nodiadau Ymddiriedolaethau ac ati

Y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Pwy ddylai gwblhau'r tudalennau *Ymddiriedolaeth ac ati*

Cwblhewch y tudalennau *Ymddiriedolaeth ac ati* os, yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011 roeddech:

- wedi derbyn neu os oedd hawl gennych dderbyn incwm o ymddiriedolaeth neu *setliad*
- wedi derbyn incwm o *ystâd person ymadawedig*
- yn *setlwr* ac yn agored i dreth
  - ar incwm a oedd yn daladwy i ymddiriedolwyr 'ymddiriedolaeth buddiant setlwr' neu ryw *setliad* arall y mae gennych fuddiant ynddo
  - ar incwm sy'n daladwy i'ch plant pan fyddant dan oed, o eiddo rydych wedi ei osod mewn *setliad*
  - mewn rhai sefyllfaoedd pan dderbynnir benthyciadau gan ymddiriedolaeth.

Bydd y nodiadau hyn ac unrhyw ffurflenni R185(Incwm Ymddiriedolaeth) a/neu R185(Setlwr) o'r ymddiriedolwyr neu ffurflenni R185(Incwm ystâd) gan y *cynrychiolwyr personol* yn eich helpu. Yn y mwyafrif o achosion yr unig beth fydd yn rhaid i chi ei wneud bydd copïo'r ffigurau o'r ffurflenni hyn i'r tudalennau *Ymddiriedolaethau ac ati*. Peidiwch ag amgáu ffurflenni R185: os bydd angen eu gweld arnom gofynnir i chi eu hanfon atom. Esbonnir *geiriau ac ymadroddion* mewn italig yn y 'Rhestr termau' sy'n dechrau ar dudalen TN 7.

Incwm na ddylid ei nodi ar y tudalennau *Ymddiriedolaethau ac ati*

Os oeddech yn fuddiolwr *ymddiriedolaeth wag* defnyddiwch dudalennau neu adrannau eraill eich ffurflen dreth i gofnodi incwm o'r *ymddiriedolaeth wag*. Os cawsoch incwm o ymddiriedolaeth dramor efallai y bydd angen y tudalennau *Tramor* arnoch chi.

Incwm o ymddiriedolaethau a setliadau

Os mai chi yw buddiolwr **a** *setlwr* ymddiriedolaeth buddiant setlwr gadewch flychau 1 a 2 yn wag; peidiwch â nodi taliadau a gawsoch o'r ymddiriedolaeth honno fel buddiolwr. Mae hyn oherwydd eich bod eisoes yn agored i dreth ar holl incwm yr ymddiriedolaeth sy'n daladwy i'r ymddiriedolwyr, a dylid rhoi hwn ym mlychau 7 i 12.

Taliad incwm dewisol gan ymddiriedolaeth a sefydlwyd yn y DU

Blwch 1 *Swm net – ar ôl didynnu treth*

Os ydych yn fuddiolwr *ymddiriedolaeth ddewisol*, nodwch ym mlwch 1 y swm a gafwyd gan yr ymddiriedolwyr ar ôl iddynt ddidynnu treth. Ond peidiwch â chynnwys taliadau gan ymddiriedolaeth buddiant setlwr (gweler y nodyn ar gyfer blwch 2 isod). Os cawsoch daliadau gan fwy nag un ymddiriedolaeth, ychwanegwch nhw at ei gilydd. Mae'r incwm ym mlwch 1 yn dwyn credyd treth o 40% - felly os ydych yn agored i dreth ar 40% ni fydd mwy o dreth i'w thalu. Os nad ydych, efallai yr ad-delir treth i chi neu efallai caiff eich bil treth ei leihau - byddwn ni'n cyfrifo hwn. Nodwch daliadau oddi wrth ymddiriedolwyr nad ydynt yn preswylio yn y DU ym mlwch 41 ar y tudalennau *Tramor* (ond gweler y nodyn ar gyfer blwch 2 isod hefyd).

Blwch 2 *Cyfanswm y taliadau o ymddiriedolaethau buddiant setlwr*

Os ydych yn fuddiolwr ymddiriedolaeth buddiant setlwr, dylech gynnwys pob taliad o'r ymddiriedolaeth ym mlwch 2, **p'un a yw'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DU ai peidio**. (Ond os nad yw'r ymddiriedolwyr yn preswylio yn y DU cwblhewch flwch 2 dim ond os dywedwyd wrthych fod yr ymddiriedolaeth yn un 'buddiant setlwr' at ddibenion treth y DU a bod incwm yr ymddiriedolaeth o lle'r daeth y taliad wedi ei drethu ar y setlwr. Os na ddywedwyd wrthych, defnyddiwch flwch 41 ar y tudalennau *Tramor*.)

Caiff y taliadau hyn eu trin fel rhai a drethwyd ac ni fydd treth ychwanegol i'w thalu ar yr incwm hwn.

Hawl i incwm nad yw'n un dewisol o ymddiriedolaeth

Blychau 3 i 5

Copïwch y ffigurau o ffurflen R185(Incwm ymddiriedolaeth) i flychau 3 i 5, fel y bo'n briodol (ond gweler 'Incwm sy'n drethadwy ar setlwyr' isod). Os nad oes gennych R185(Incwm ymddiriedolaeth) nodwch y symiau y mae gennych hawl iddynt ar ôl didynnu treth y DU (y swm net) ym mlychau 3 i 5. Defnyddiwch y blwch priodol yn unol â chyfradd y dreth a ddidynnwyd.

Ond peidiwch â chynnwys y symiau canlynol ym mlychau 3 i 5:

- difidendau stoc - nodwch y rhain ar y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol*
- incwm tramor – nodwch hwn ar y tudalennau *Tramor*
- incwm ymddiriedolaeth heb ei drethu – nodwch hwn yn y blwch priodol mewn mannau eraill ar y ffurflen dreth.

Incwm sy'n drethadwy ar setlwyr

Mae Taflen Gymorth 270 *Trusts and Settlements – income treated as the settlor's* yn rhoi fwy o fanylion ynglŷn â *setliadau* a phan fo *setlwr* yn agored i dreth ar incwm sy'n daladwy i berson arall. Bydd y blychau y dylech eu cwblhau os ydych yn agored i dreth fel *setlwr* yn dibynnu ar p'un a yw'r incwm yn codi i ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth neu i berson nad yw'n ymwneud ag ymddiriedolaeth.

Incwm sy'n codi i ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth neu setliad

Blychau 7 i 12

Copïwch y ffigurau o ffurflen R185(Setlwr). Os na chawsoch un efallai y bydd yn rhaid i chi ofyn i ymddiriedolwyr yr ymddiriedolaeth neu *setliad* am yr wybodaeth i'w nodi ym mlychau 7 i 12. Defnyddiwch y blwch priodol yn unol â'r gyfradd dreth a ddidynnwyd gan yr ymddiriedolwyr. Cewch gredyd am y dreth a dalwyd gan yr ymddiriedolwyr. Peidiwch â nodi incwm tramor yn y blychau hyn – defnyddiwch y tudalennau *Tramor* yn lle hynny.

Os ydych yn *setlwr* yn ogystal â'n fuddiolwr ymddiriedolaeth annewisiadol buddiant setlwr, gallai swm eich hawliad fel buddiolwr fod yn llai na chyfanswm incwm yr ymddiriedolaeth oherwydd bod yr ymddiriedolwyr wedi defnyddio peth o'r incwm i dalu costau rheoli'r ymddiriedolaeth. Ond fel *setlwr* rydych yn agored i dreth ar yr holl incwm, felly rhaid i chi nodi cyfanswm incwm yr ymddiriedolaeth ym mlychau 7 i 12.

Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd sy'n codi i'r ymddiriedolwyr

Os gwnaeth yr ymddiriedolaeth ennill ar bolisi yswiriant bywyd, efallai y bydd yn rhaid i chi gwblhau blychau ar dudalennau eraill y ffurflen dreth, yn ogystal â'r blychau sydd yma. Bydd y blychau y dylech eu cwblhau yn dibynnu ar p'un a oedd y polisi yn un tramor, p'un a gafodd ei drin fel petai'r dreth ar 20% wedi ei dalu gan yr yswiriwr, neu p'un a oedd yn rhaid i'r ymddiriedolwyr dalu unrhyw dreth ychwanegol.

- Os cafodd ei drin fel petai dim ond 20% a gafodd ei thalu, nodwch yr ennill ym mlwch 4 ar dudalen Ai 1 y tudalennau *Gwybodaeth Ychwanegol*.
- Os talodd yr ymddiriedolwyr treth ychwanegol o 30% ar yr ennill, nodwch y dreth ychwanegol honno a dalwyd ym mlwch 15 ar y tudalennau *Ymddiriedolaethau ac ati*.
- Os cafodd yr ennill ei drin fel petai dim treth wedi ei thalu, nodwch swm yr ennill ym mlwch 6 ar dudalen Ai 1 ar y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol*. Nodwch swm y dreth a dalwyd gan yr Ymddiriedolwyr ar yr ennill ym mlwch 15 y tudalennau *Ymddiriedolaethau ac ati* – gallai hyn fod naill ai 20% neu 50%.
- Os oedd yr ennill ar bolisi bywyd tramor, dylech ei nodi ym mlwch 43 ar y tudalennau *Tramor*.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Incwm sy'n deillio o setliad nad yw'n ymddiriedolaeth

Blychau 9, 13 a 14

Os ydych yn agored i dreth fel *setlwr* ar incwm sy'n codi i berson arall mewn *setliad* neu drefniant nad yw'n ymddiriedolaeth, nodwch incwm sydd o fath difidend ym mlwch 9, incwm nad yw'n deillio o gynilion ym mlwch 13 ac incwm o gynilion ym mlwch 14. Mae Taflen Gymorth 270 *Trusts and Settlements – income treated as the settlor's* yn esbonio mwy am hyn a bydd yn eich cynorthwyo i gyfrifo'r symiau hyn. Os fel eithriad, didynnwyd treth o'r incwm nodwch ef ym mlwch 7 neu flwch 8. Os yw'r incwm yn incwm tramor, defnyddiwch y tudalennau *Tramor*.

Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd mewn sefyllfa nad yw'n ymwneud ag ymddiriedolaeth

Os ydych yn agored i dreth ar ennill a wnaed ar bolisi yswiriant bywyd, rhaid i chi gwblhau blychau ar dudalennau eraill y ffurflen dreth:

- nodwch yr ennill ym mlwch 4 ar dudalen Ai1 ar y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol*, os cafodd ei drin fel petai treth ar 20% wedi ei thalu
- os na chafodd yr ennill ei drin fel petai dim treth wedi ei thalu, nodwch swm yr ennill ym mlwch 6 ar dudalen Ai 1 y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol*
- os oedd yr ennill ar bolisi bywyd tramor, nodwch ef ym mlwch 43 ar y tudalennau *Tramor*.

Incwm o ystadau personau ymadawedig

Copïwch y ffigurau o'r ffurflen R185(Incwm ystâd) i flychau 16 i 21 fel y bo'n briodol (ond gweler y nodiadau ar gyfer blychau 18 i 20).

Os nad yw *cynrychiolydd personol* yr ystâd wedi rhoi ffurflen R185(Incwm ystâd) i chi, gofynnwch iddynt am fanylion y symiau a gawsoch neu y mae hawl gennych iddynt fel *buddiolwr y gweddill*, â'r dreth a dalwyd ar yr incwm hwnnw. Ni chodir tâl Treth Incwm ar y gweddill ei hun, ond mae buddiolwyr y gweddill yn agored i dreth ar unrhyw incwm sy'n codi ar eu cyfran nhw o'r gweddill. Bydd swm yr incwm a sut y caiff ei drethu yn dibynnu, yn gyntaf ar y *math o fuddiant* sydd gennych yn y gweddill ac yn ail, ar p'un a yw'n ystâd yn y DU neu'n ystâd dramor.

Cysylltwch
os oes angen cymorth arnoch drwy ffonio Llinell Gymorth 'Deceased estates' ar **0131 777 4030**

Ni chodir Treth Incwm ar gymynrodd, er y bydd unrhyw incwm sy'n deillio o'r swm penodol o arian neu ased yn drethadwy. Peidiwch â chynnwys unrhyw incwm o'r fath ar y tudalennau *Ymddiriedolaethau ac ati*, ond dylech ei gynnwys mewn man arall ar eich ffurflen dreth, yn unol â'r math o incwm.

Buddiant llwyr

Os na chawsoch incwm o weddill yr ystâd yn ystod 2010-11 ni fydd gennych unrhyw beth i'w nodi ar y tudalennau *Ymddiriedolaeth ac ati* hyn (ond gweler y nodyn isod os daeth y *cyfnod gweinyddu* i ben yn 2010-11). Os oedd yr ystâd yn fychan iawn, neu os cwblhawyd gweinyddiaeth yr ystâd yn gyflym iawn, efallai na fydd y *cynrychiolwyr personol* wedi derbyn unrhyw incwm ac felly ni fydd ffurflenni R185(Incwm ystâd) wedi cael eu cwblhau.

Fel arall, os oes gennych *fuddiant llwyr* yng ngweddill yr ystâd, byddwch yn agored i dreth ar yr isaf o:

- unrhyw symiau a dalwyd i chi gan y *cynrychiolwyr personol* yn y flwyddyn dreth, neu
- swm yr incwm a ddeilliodd o'ch cyfran chi o'r gweddill ers i'r ystâd ddechrau cael ei gweinyddu (ond didynnwch unrhyw daliadau a gynhwyswyd mewn ffurflenni treth am flynyddoedd cynharach o'r swm hwn).

Os cwblhawyd gweinyddiaeth yr ystâd yn ystod 2010-11, byddwch yn agored i dreth ar yr holl incwm o'ch cyfran chi o'r ystâd am *gyfnod* llawn *y weinyddiaeth*, ond gallwch ddidynnu unrhyw symiau a gynhwyswyd yn ffurflenni treth blynyddoedd cynharach.

Buddiant olynol

Os oes gennych *fuddiant olynol* yn yr ystâd, gallwch ddidynnu unrhyw symiau a gynhwyswyd eisoes yn ffurflenni treth blynyddoedd cynharach y buddiolwr gwreiddiol.

Buddiant cyfyngedig neu ddewisol

Os oes gennych *fuddiant cyfyngedig* neu *fuddiant dewisol* yng ngweddill yr ystâd byddwch yn agored i dreth ar y swm a gewch yn y flwyddyn.

Incwm o ystadau yn y DU

Yn fras, mae ystâd yn y DU yn un pan fo holl incwm yr ystâd wedi ei drethu'n barod yn y DU. Cewch gredyd am y dreth a ddidynnwyd o'r taliadau a gawsoch o'r ystâd.

Unwaith y byddwch wedi cyfrifo'r symiau yr ydych yn agored i dalu treth arnynt, dylech eu nodi ym mlychau 16 i 21, yn unol â'r gyfradd dreth a ddidynnwyd a ph'un a ellir ad-dalu'r dreth honno ai peidio. Bydd y rhan fwyaf o incwm yn mynd ym mlychau 16, 17 a 21.

Blychau 16, 17 a 21 ***Incwm nad yw'n deillio o gynilion, incwm cynilion a difidendau***

Pan fo treth wedi ei didynnu o:

- incwm nad yw'n deillio o gynilion ar y gyfradd sylfaenol (20%) – nodwch y swm ym mlwch 16. Mae hwn yn cynnwys incwm rhent ac elw o fasnach.
- incwm sy'n deillio o gynilion ar y gyfradd sylfaenol (20%) – nodwch y swm ym mlwch 17. Mae hwn yn cynnwys llog o fanc a chymdeithasau adeiladu.
- incwm difidend ar y gyfradd ddifidend na ellir ei ad-dalu (10%) – nodwch y swm ym mlwch 21. Mae hwn yn cynnwys difidendau o gwmnïau'r DU.

Dylech nodi hefyd ym mlwch 21 unrhyw incwm o ystâd yn y DU sy'n cynrychioli difidendau o gwmnïau tramor ac sy'n gymwys am gredyd treth y DU ar ddifidendau.

Gweler y nodiadau isod a'r nodiadau ar gyfer y tudalennau Tramor am arweiniad ynglŷn â pha ddifidendau tramor sy'n gymwys am gredyd treth y DU.

Blwch 18 ***Incwm difidend***

Os cewch neu os oes gennych hawl i incwm difidend tramor o ystad yn y DU, nad yw'n gymwys am gredyd treth y DU ar ddifidend nodwch y swm ar ôl didynnu treth ym mlwch 18.

Gweler y nodiadau ar dudalen TN 5 am arweiniad os cewch neu os oes gennych hawl i incwm difidend tramor o ystâd dramor.

Blwch 19 ***Incwm nad yw'n deillio o gynilion a drethwyd ar gyfradd sylfaenol na ellir ei had-dalu***

Os cewch neu os oes gennych hawl i enillion ar bolisïau yswiriant bywyd a wnaed gan yr ystâd, ac os caiff ei drin fel petai treth ar 20% wedi ei thalu, nodwch yr ennill ym mlwch 19. Ond os os caiff ei drin fel petai treth ar 22% wedi ei thalu ar enillion polisi yswiriant, nodwch hwn ar wahân fel incwm na ellir ei ad-dalu a drethwyd ar 22% – ar ôl didynnu treth, yn y man ar gyfer 'Unrhyw wybodaeth arall' sef blwch 25

Nodwch unrhyw incwm yr ystâd nas dosbarthwyd o 1998-99 neu flynyddoedd cynharach ym mlwch 19 hefyd.

Blwch 20 ***Incwm a drethwyd ar 22%***

Nodwch ym mlwch 20 unrhyw incwm y didynnwyd unrhyw dreth ar 22% ohono, pan oedd y gyfradd sylfaenol yn 22%, (ond nid enillion polisïau yswiriant bywyd, gweler y nodiadau ynglŷn â 19 uchod) ac nid yw wedi ei drosglwyddo i'r buddiolwyr tan ar ôl i'r gyfradd sylfaenol gael ei gostwng i 20%.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Credydau treth ar ddifidendau tramor

Yn y rhan fwyaf o achosion mae cynrychiolwyr personol sy'n derbyn incwm difidend o gwmnïau tramor fel rhan o incwm ystâd yn y DU neu dramor, â hawl i gael credyd treth y DU sydd gyfwerth ag un nawfed o'r difidend.

Newidiodd y gyfraith mewn perthynas â chredydau treth ar ddifidendau o 22 Ebrill 2009. Os cawsoch ddifidend tramor cyn y dyddiad hwnnw, byddwch wedi cymhwyso am y credyd treth o un nawfed os oedd eich cyfranddaliad yn llai na 10% o gyfalaf y cyfraniadau a ddyroddwyd gan y cwmni sy'n talu'r difidend ac nid oedd y cwmni'n gronfa alltraeth. (Mae'r rhan fwyaf o bobl yn berchen ar lai na 10% o gyfalaf y cyfraniadau a ddyroddwyd gan gwmnïau y maent yn derbyn difidendau ohonynt.)

Darllenwch y nodiadau ar gyfer y tudalennau *Tramor* neu ewch i **www.hmrc.gov.uk** am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r rheolau sy'n gymwys o 22 Ebrill 2009.

Sefyllfaoedd arbennig

Os lluniwyd *gweithred amrywio* ac mae'r swm a gewch neu y mae gennych hawl iddo yn newid, rydych yn agored i dreth ar y swm a dalwyd i chi mewn gwirionedd. Nid yw'r amrywiad yn newid incwm trethadwy ar gyfer cyfnodau cyn dyddiad y weithred.

Os codwyd Treth Etifeddiant ar yr un incwm, ac mae'n agored i Dreth Incwm hefyd, gallwch hawlio rhyddhad am dalu treth ddwywaith. Os yw'r *cynrychiolwyr personol* wedi sôn wrthych am hyn, yna nodwch y swm gostyngol yn y blwch priodol.

Os gwnaethoch hawlio eich hawliau cyfreithiol mewn ystâd yn yr Alban, fel arfer telir eich hawliad ynghyd â llog. Nodwch y llog ar dudalen TR 3 eich ffurflen dreth ac nid ar y tudalennau *Ymddiriedolaethau ac ati*.

Incwm o ystadau tramor

Mae ystâd dramor yn un pan ni chodwyd treth lawn y DU ar yr ystâd oherwydd:
- bod ganddi incwm tramor, a
- naill ai nad yw'r *cynrychiolwyr personol* yn preswylio ac nid ydynt fel arfer yn preswylio yn y DU neu nid oedd domisil yr ymadawedig yn y DU ar adeg y farwolaeth.

Blwch 22 ***Incwm o ystâd dramor***

Os cewch, neu os oes gennych hawl, i incwm tramor o ystâd dramor, nodwch swm llawn yr incwm trethadwy, yn dibynnu ar p'un a oedd gennych *fuddiant llwyr*, *cyfyngedig* neu *ddewisol*, cyn didynnu unrhyw dreth y DU neu dreth dramor.

Blwch 23 ***Rhyddhad am dreth y DU a ystyriwyd eisoes***

Os codwyd rhywfaint o dreth y DU ar incwm tramor o ystâd dramor, gallwch hawlio rhyddhad ar gyfer treth y DU a dalwyd neu a ddidynnwyd ac unrhyw gredyd treth y DU ym mlwch 23. Dylech gynnwys hefyd unrhyw gredyd treth ar gyfer treth dramor a dalwyd mewn perthynas â difidend cwmnïau tramor sy'n cymhwyso. Gweler y nodiadau ar gyfer tudalennau *Tramor* am wybodaeth ynglŷn â chredydau treth ar ddifidendau tramor. Os ydych am hawlio'r rhyddhad, defnyddiwch Daflen Waith 1 ar dudalen TN 6 os oes gennych *fuddiant llwyr* a Thaflen Waith 2 ar dudalen TN 6 os oes gennych *fuddiant cyfyngedig* neu *ddewisol*.

Yn y **ddwy** Daflen Waith:

- B yw'r dreth a fyddai'n cael ei chodi arnoch mewn gwirionedd ar yr incwm ym mlwch 22 cyn hawlio rhyddhad, ac mae'n dibynnu ar gyfanswm eich incwm trethadwy a'ch amgylchiadau personol
- C yw swm incwm yr ystâd y byddai treth yn cael ei chodi arno yn y DU, petai ef i gyd yn codi yn y DU a phetai'r *cynrychiolwyr personol* yn preswylio yn y DU
- D yw swm incwm yr ystâd y byddai treth yn cael ei chodi arno yn y DU, y talwyd treth arno neu y didynnwyd treth y DU ohono mewn gwirionedd, neu sy'n dwyn credyd treth y DU.

Efallai y bydd angen i chi ofyn i'r *cynrychiolwyr personol* am rai o'r ffigurau hyn.

Taflen Waith 1 – *buddiannau llwyr*

Incwm ym mlwch 22	A	£
Treth ar yr incwm ym mlwch 22	B	£
Swm incwm yr ystâd a fyddai'n agored i dreth y DU	C	£
Swm incwm yr ystâd a fyddai'n agored i dreth, y mae treth y DU wedi ei thalu ar ei gyfer neu ei didynnu ohono mewn gwirionedd neu sy'n dwyn credyd treth y DU	D	£
Blwch D wedi ei rannu gyda blwch C	E	£
Blwch B wedi ei luosi â blwch E *Copïwch flwch F i flwch 23*	F	£

Taflen Waith 2 – *buddiannau cyfyngedig neu ddewisol*

Incwm ym mlwch 22	A	£
Treth ar yr incwm ym mlwch 22	B	£
Swm incwm yr ystâd a fyddai'n agored i dreth y DU	C	£
Swm incwm yr ystâd a fyddai'n agored i dreth, y mae treth y DU wedi ei thalu ar ei gyfer neu ei didynnu ohono mewn gwirionedd neu sy'n dwyn credyd treth y DU	D	£
Cyfanswm treth y DU a dalwyd ac/neu gredydau treth ar incwm yn C	E	£
Blwch D llai blwch E	F	£
Blwch C llai blwch E	G	£
Blwch F wedi'i rannu gyda blwch G	H	£
Blwch B wedi ei luosi gyda blwch H *Copïwch flwch I i flwch 23*	I	£

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Treth dramor a dalwyd ar incwm o ystâd

Os cewch neu os oes hawl gennych dderbyn incwm sy'n agored i dreth y DU, ac sydd hefyd wedi ei drethu mewn gwlad dramor, efallai y gallech hawlio rhyddhad credyd treth dramor ar gyfer y dreth dramor a dalwyd. Cwblhewch y tudalennau *Tramor* er mwyn ei hawlio.

Blwch 24 ***Treth dramor nas hawliwyd rhyddhad credyd treth dramor ar ei chyfer***

Os nad ydych am hawlio Rhyddhad credyd treth dramor, gallwch hawlio didyniad ar gyfer y dreth dramor yn erbyn eich incwm drwy gwblhau blwch 24. Ond ni allwch hawlio didyniad rhannol yn ogystal â rhyddhad credyd treth dramor rhannol ar yr un swm o incwm.

Rhestr termau – ymddiriedolaethau a setliadau

Ymddiriedolaeth Wag

Mae *ymddiriedolaeth wag (bare trust)* yn un pan fydd gennych hawl lwyr i incwm a chyfalaf yr ymddiriedolaeth. At ddibenion treth caiff unrhyw incwm sy'n codi i'r ymddiriedolwyr ei drin fel eich incwm chi. Dylid ei gofnodi ar dudalennau neu adrannau'r ffurflen dreth sy'n delio â'r math hynny o incwm, nid ar y tudalennau *Ymddiriedolaeth ac ati*.

Ymddiriedolaeth Ddewisol

Caiff taliadau incwm ei gwneud yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr. Does dim hawl lwyr gan y buddiolwr i incwm neu gyfalaf *ymddiriedolaeth ddewisol*. Caiff ymddiriedolaethau cynnal a chronni eu trin fel ymddiriedolaethau dewisol at ddibenion Treth Incwm.

Ymddiriedolaeth Annewisol

Mae hon yn ymddiriedolaeth pan fo gan y buddiolwyr hawl lwyr neu hawliad i incwm (wrth iddo godi) ond nid i gyfalaf yr ymddiriedolaeth. Caiff ei alw yn ymddiriedolaeth buddiant mewn meddiant (interest in possession) hefyd; gellir galw'r buddiolwyr yn denantiaid oes neu 'life renters' yn yr Alban.

Setliad

Mae ystyr eang i *Setliad* a gall gynnwys ymddiriedolaeth yn yr ystyr arferol ond gall olygu cyfamod, gwarediad, trefniant neu hyd yn oed drosglwyddiad syml o asedion. Fel arfer mae gweithredoedd ysgrifenedig gan ymddiriedolaethau ond efallai na fydd rhai setliadau eraill yn drefniannau ffurfiol. Ceir eithriadau hefyd i'r disgrifiad hwn. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Nhaflen Gymorth 270 *Trusts and settlements - income treated as the settlor's* ac mae'n rhoi enghreifftiau o'r hyn a ystyrir, neu nas ystyrir yn *setliad*.

Setlwr

Setlwr yw rhywun sy'n rhoi arian neu asedion eraill mewn ymddiriedolaeth neu *setliad*. Os ydych yn *setlwr* byddwch yn agored i dreth:

- os byddwch yn cadw buddiant yn yr ymddiriedolaeth neu'r *setliad*, hynny yw, gallwch chi neu eich priod neu'ch partner sifil elwa nawr neu yn y dyfodol o gyfalaf neu incwm y *setliad*. Rydych yn agored i dreth ar yr incwm sy'n codi i'r ymddiriedolaeth neu'r *setliad*
- os nad ydych wedi cadw buddiant ond telir cyfalaf neu incwm i'ch plentyn, neu er budd eich plentyn neu eich llysblentyn (os yw'r plentyn hwnnw o dan 18 oed a heb briodi neu ffurfio partneriaeth sifil). Rydych yn agored i dreth ar y taliadau a wnaed i'r plentyn hwnnw.

A gallech fod yn agored i dreth os ydych yn *setlwr* ac rydych chi neu eich priod neu eich partner sifil wedi derbyn benthyciad, neu ad-daliad benthyciad, gan ymddiriedolwyr yr ymddiriedolaeth neu'r *setliad*. Mae Taflen Gymorth 270 yn esbonio hyn yn fanylach.

Rhestr termau – ystadau

Cyfnod gweinyddu

Mae gan bob ystâd gyfnod gweinyddu sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl dyddiad y farwolaeth ac yn dod i ben ar y dyddiad pan fydd yr ystâd yn barod i gael ei dosbarthu i fuddiolwyr y gweddill.

Gweithred amrywio

Dyma newid (neu amrywiad) i delerau'r ewyllys, neu reolau diewyllysedd pan nad oes ewyllys yn bodoli. Pan fo newid o'r fath yn digwydd caiff buddiolwyr eu trethu ar yr incwm a delir iddynt mewn gwirionedd. Nid yw'r *weithred amrywio* yn cael effaith ôl-weithredol at ddibenion treth incwm ac felly ni all newid yr incwm trethadwy am y cyfnodau cyn dyddiad y weithred.

Ystâd person ymadawedig

Mae ystâd yn cynnwys yr holl eiddo, arian ac asedion eraill rhywun a fu farw.

Cymynrodd

Mae *cymynrodd* yn swm penodol o arian neu'n ased arbennig y gadewir i chi o dan delerau'r ewyllys. Bydd unrhyw **incwm** sy'n deillio o'r arian neu'r ased hwnnw yn agored i dreth a dylid ei nodi ar dudalen neu adran briodol eich ffurflen dreth. Er enghraifft, os gwnaethoch etifeddu *cymynrodd* sy'n cynnwys cyfranddaliadau mewn cwmni dylid nodi unrhyw ddifidend ar dudalen TR 3 eich ffurflen dreth. Neu os gadawyd *cymynrodd* sy'n cynnwys eiddo ar osod, dylid nodi'r incwm rhent ar y tudalennau *Eiddo yn y DU*.

Cynrychiolwyr personol

Y *cynrychiolwyr personol* yw'r bobl a benodir i weinyddu'r ystâd yn ystod y cyfnod gweinyddu. Byddant naill ai'n ysgutorion (os oes ewyllys) neu'n weinyddwyr (os nad oes ewyllys). Yn yr Alban defnyddir y term ysgutor yn y ddwy sefyllfa.

Buddiolwr y gweddill

Mae *buddiolwr y gweddill* yn rhywun sydd â hawl ganddo/ganddi i gyfran o weddill yr ystâd. Y gweddill yw'r hyn sydd ar ôl yn yr ystad ar ôl i'r holl ddyledion, treuliau, trethi a chymynroddion gael eu talu.

Mae *buddiolwr y gweddill* yn agored i dreth ar incwm sy'n deillio o'i gyfran ef/chyfran hi o weddill yr ystad, er enghraifft, ar ei gyfran ef/chyfran hi o unrhyw log ar arian a gadwyd mewn cyfrif cynilo neu o ddifidendau ar gyfranddaliadau. Gallai *buddiolwr y gweddill* dderbyn neu fod â hawl ganddo/ganddi i'r incwm hwn tra bod yr ystâd yn parhau i gael ei gweinyddu neu pan ddaw'r weinyddiaeth i ben.

Mathau o fuddiant

Bydd gennych *fuddiant llwyr* mewn ystâd os oes gennych hawl i dderbyn yr incwm yn ogystal â chyfalaf eich cyfran chi o weddill yr ystâd.

Mae gennych *fuddiant dewisol* os oes gennych hawl i dderbyn incwm o'r ystâd ar ddisgresiwn y *cynrychiolwyr personol*.

Mae gennych *fuddiant cyfyngedig* os oes gennych hawl i dderbyn yr incwm, ond nid y cyfalaf o'ch cyfran chi o weddill yr ystâd.

Mae gennych *fuddiant olynol* os bydd *buddiolwr y gweddill* yn marw yn ystod cyfnod gweinyddu'r ystâd ac o ganlyniad rydych chi'n dod yn fuddiolwr newydd. Cewch eich trin fel petaech wedi bod yn *fuddiolwr y gweddill* o ddechrau'r ystâd wreiddiol.